**Cyngor Cymuned Glantwymyn**

**Nos Iau, y 26ain o Fedi 2019**

**19:64: Presennol:** Cynghorwyr: Siôn Ifans (Cadeirydd), Gwyn Jones, William N Owen, Paul Hughes, Gwenfair Davies,

**19:65: Ymddiheuriadau:** Dafydd Evans, Huw Williams, Gareth Owen, Geraint Wigley, Aled Griffiths, Elwyn Vaughan

**19:66: Cyflwyno a Derbyn Cofnodion Cyfarfod CC Glantwymyn Gorffennaf 2019** Cynigiodd Gwenfair Davies fod y cofnodion yn gywir. Fe'i heiliwyd gan William Owen

**19:67: Datganiadau o ddiddordeb** – dim

**19:68: Materion yn codi o'r cofnodion** – dim

**19:69: Gohebiaeth**

**19:69:1**: Blychau ffôn. (19:47:3) Mae trafodaethau ar y gweill o hyd i brynu'r blychau ffôn yn Narowen, Comins Coch a Chemaes. Cafwyd gwybod bydd blwch ffôn Abercegir yn cael ei ddefnyddio i gadw diffibriliwr.

**19:69:2:** Mae Cofeb Rhyfel Cemaes (19:51:2) wedi cael ei hadfer i safon dda. Canmolwyd y gwaith. Ceisir nawdd i adfer cofeb Cwmlline.

**19:69:3**: Noddi coeden Cafwyd gwahoddiad i bleidleisio dros goeden brin sef poplysen ddu yn y Drenewydd ar gyfer gwobr gan Ymddiriedolaeth Coetiroedd. Cynigiodd William Owen y dylid cefnogi'r achos ac fe'i heiliwyd gan Gwenfair Davies

**19:69:4**: **Cynllunio** - Dim

**19:70 Materion Ariannol**

**19:70:1:** Derbyniwyd llythyr gan Deryck Evans, Swyddfa Awdit Cymru yn nodi bod cyfrifon CCG 2016 a 2017 wedi cael eu derbyn a'u bod yn foddhaol. Gosodir hysbysiad a chopïau o'r cyfrifon hynny yng Nghanolfan Gymunedol Glantwymyn am 14 diwrnod yn unol â'r gofyn.

**19:70:2:** Cafwyd anfoneb ar gyfer gwaith glanhau bus shelters CCG Ceinws, Glantwymyn, Cemaes, Cwmlline am £90. Gwelwyd bod y gwaith wedi cael ei wneud yn dda. Cynigwyd y dylid talu gan Paul Hughes. Fe'i heiliwyd gan Gwenfair Davies.

**19:70:2:** Yswiriant blynyddol. Penderfynwyd talu siec am £482-60 eleni Ystyrir taliadau misol ar gyfer y dyfodol. Cynigiodd Gwyn Jones y dylid derbyn yr yswiriant ac fe'i heiliwyd gan Gwenfair Davies.

Penderfynwyd ceisio cyngor Aled Griffiths a Rhys Bleddyn am werth ariannol cofeb Cemaes. **19:70:3**

**19:71: Adroddiadau'r Cynghorwyr:**

**19:71:1;** Crynodeb o Fforwm Cleifion 17-9-19 gan Gwenfair Davies

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Iechyd Powys yn cydweithio gydag Iechyd Bro Ddyfi i ddatblygu

llawlyfr canllawiau ar y gwasanaeth. Nodwyd bod cyfeiriad at y system 'Triage', ond nid

oedd hyn yn egluro'r drefn i bobl.

Gyrrwyd e-bost i Fwrdd Iechyd Addysgol Powys yn tynnu sylw at hyn ac nad oes disgwyl i

bobl ddeall trefn newydd os nad yw'n cael ei drosglwyddo mewn ffordd glir. Cynigwyd y

byddai math o 'siart llif' yn llawer mwy eglur ac y byddai pobl yn fwy tebygol o gyd-fynd

gyda newid yn y drefn.

Deallwyd hefyd bod anawsterau gyda thendro yn arafu'r broses o gychwyn y datblygiad

newydd ar hen safle Ysbyty'r Frest, Machynlleth.

Mae rhaglen o weithgareddau 'Trywydd Iach' i hybu iechyd a lles yn cychwyn fis Hydref. Os

am fwy o wybodaeth cysylltwch â Gwenfair@ecodyfi.cymru.

**19:71:2:** Adroddiad Canolfan Gymuned Glantwymyn gan Paul Hughes

Cafwyd diffibriliwr gan yr Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru a darparwyd bocs ar ei gyfer gan Ofal Iechyd Cymru. Mae'r teils yn y toiledau wedi cael eu trwsio. Mynegwyd diolch am y cyfraniadau CCG at brynu cadeiriau newydd. Mae system sain newydd ar y gweill. Cynhelir cyngerdd ar yr 8fed o Dachwedd gan dri Gog a Hwntw i godi arian i'r Ganolfan. Bydd bar ar gael.

**19:72 Unrhyw Fater Arall**

**19:72:1:** Cofrestr Datgan Diddordeb Pwysleisiwyd pwysigrwydd y gofrestr ac fe'i diweddarwyd yn briodol.

**19:72:2:** Cod ymddygiad Tynnwyd sylw at fersiwn diweddaraf o'r Cod ymddygiad. Cynigiodd Paul Hughes y dylid gohirio derbyn y fersiwn newydd o'r Cod Ymddygiad tan y tro nesaf, pan fyddai mwy o gynghorwyr yn bresennol i'w dderbyn. Fe'i heiliwyd gan Gwenfair Davies.

**19:72:3;** Hysbysfwrdd Llanwrin. Nodwyd bod yr hysbysfwrdd angen sylw er mwyn hwyluso agor a gau yn dilyn tywydd gwlyb. Penderfynwyd cysylltu â'r saer.

**19:73:** Materion Priffyrdd

**19:73:4:** Nodwyd bod dŵr ar y ffordd ger Bryn Berllan Llanwrin SY20 8QQ a bod draen wedi cael ei osod yn rhy isel ger Aber Ffrydlan.

**19:73:5:** Nid yw'r gwair ar ochr y ffordd rhwng Minffordd a Chefn Coch wedi cael ei dorri am yr ail flwyddyn yn olynol. Penderfynwyd cysylltu â'r adran briodol o'r Cyngor Sir er mwyn diweddaru'r mapiau'n briodol.

**19:73:6**: Gosodwyd sylfaen ar gyfer arwydd ddwy ffordd i gyfyngu cyflymder a fyddai'n weithredol am rai misoedd o'r flwyddyn yn Llanwrin nifer o flynyddoedd yn ôl.

**19:73:7:** Adroddwyd nad oedd dwy lamp ym mhen uchaf Glantwymyn yn gweithio er i weithwyr ymweld â nhw bythefnos yn ôl. Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Sir Powys ac Adrian Jervis ar gyfer y materion uchod

19:73:8: Adroddwyd bod problem gyda sietyn o amgylch pumphouse Llanwrin wedi dirywio a bod ofnau y byddai anifeiliaid cyfagos yn gallu dod i ardd un o'r bobl leol gan beryglu ei danc olew.

**19:73:8:** Asedau CCG Cafwyd trafodaeth i gadarnhau asedau'r Cyngor.

Caewyd y cyfarfod am 8.30yh

**Cynhelir y cyfarfod nesaf, nos Iau, yr 31ain o Hydref am 7.30yh**